# 3. GWRTHYMOSOD

**Darllen:** Marc 12: 35-44

Cymerodd Iesu ei gyfle i droi'r byrddau ar y rhai a fu'n ymosod arno, gan ymosod yn awr ar eu daliadau a'u hymagwedd hwy. Buont yn ymosod i'w gael i brofi mai ef oedd y Crist, y Meseia. Hiraethant am weld y Meseia yn dod fel Mab Dafydd, brenin a rhyfelwr mawr, dyn grymus. Yn awr, adroddodd Iesu yng ngeiriau agoriadol Salm 110: "*Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, 'Eistedd ar fy neheulaw, nes i mi wneud dy elynion yn droedfainc i ti.*'' Nid yr un oedd teyrnas y Meseia â theyrnas Dafydd Frenin, ac ni sefydlir ei deyrnas ef yn yr un ffordd a theyrnasoedd y ddaear.

Aeth Iesu ymlaen i feirniadu doctoriaid y Gyfraith. Soniodd am eu gweddïau hirion, 'duwiol' a'u hunanbwysigrwydd, gan eu condemnio fel y "*rhai sy'n difa cartrefi gwragedd gweddwon.*" Ymffrost y Rabiniaid oedd eu bod yn gwasanaethu Duw a'r bobl, ond mewn gwirionedd, yr hyn a wnaethant oedd perswadio'r bobl i'w cynnal mewn modd cyfforddus.

Cyrhaeddodd yr awr i'r Goleuni lewyrchu, gan ddatguddio eu rhagrith a'u drygioni. Yr un diagnosis a'r prognosis sydd yma ag eiddo'r ffigysbren, digon o ddail - gweddïau, aberthau, arogldarth a pharchusrwydd. Roedd holl olwynion crefydd yn troi yn hyfryd - ond nid oedd ffrwyth! A'r un yw'r ddedfryd: 'Mae'n farw!'

Yna, trodd ei sylw oddi wrth ddynion mawr crefydd a chymdeithas at weddw dlawd yn rhoi ei chasgliad yng nghist y Deml, dim ond chwarter ceiniog, y cyfan oedd ganddi. I Iesu, dyma ymgnawdoliad y Ddeddf, "*Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth… Câr dy gymydog fel ti dy hun*." Dyma goeden a ffrwyth arni!

Gyda'r geiriau hyn y daeth y frwydr hon i ben. Ymadawodd Iesu â'r Deml am y tro olaf, hyd nes iddo ddod yn ôl yn garcharor. Ni chaed y *Shecina*, gogoniant Duw, ar y mynydd hwn byth mwy. Dringodd Iesu dros Fynydd yr Olewydd yn ôl i Fethania. Byddai'n dychwelyd i Jerwsalem ar gyfer cadw'r Pasg gyda'i ddisgyblion yn yr Oruwch Ystafell, ac ar gyfer Gethsemane a'r Groes.

**Darllen: Marc 13: 1-6, 28-37.**

Wrth iddynt ymadael â'r Deml mynegodd y disgyblion eu rhyfeddod at odidowgrwydd yr adeiladau gwych. Peth digon naturiol i bobl syml o'r wlad a oedd yn mynychu synagog digon cyffredin wrth iddynt sefyll mewn addoldy mor ysblennydd. Un sylw oedd gan Iesu: '*A weli di'r adeiladau mawr yma? Ni adewir yma faen ar faen' ni fydd yr un heb ei fwrw i lawr.*'

Wrth iddynt ddringo yn ôl i Fethania ar lwybr serth mynydd yr Olewydd, aeth pedwar o'r disgyblion, Pedr a'i frawd Andreas a'r brodyr Iago ac Ioan, at Iesu i ofyn pa bryd y byddai'r pethau hyn yn digwydd. Wrth ateb, soniodd Iesu am gwymp y ddinas a distryw'r Deml; am ryfeloedd, daeargrynfeydd ac adegau o newyn ar y ddaear, am erledigaeth, brad, cyfnodau o ansicrwydd a chasineb i'w ganlynwyr. Yn y flwyddyn 70 OC y gwireddwyd ei air, pan gwympodd y ddinas a'r Deml i afael byddin Rhufain a distrywiwyd y cyfan.

Bu hyn yn destun siarad i lawer yn yr Eglwys byth er hynny, wrth i rai pobl dybio eu bod yn canfod yn yr Ysgrythurau arwyddion cyfoes o ddyfodiad y Diwedd. Pob hyn a hyn, daw rhai i gyhoeddi bod yr arwyddion o'u cwmpas yn eglur – yn y flwyddyn 1000 OC, er enghraifft, ac yn 2000 OC hefyd ac ar achlysuron eraill, megis y cyfnod pan ddefnyddiwyd powdr gwn yn Ewrop am y tro cyntaf. Dengys hanes i'r arwyddion fod gyda ni dros yr ugain canrif ddiweddaf a bod plant Duw yn byw ar hyd yr amser hynny yn y 'dyddiau diweddaf.' Ond, meddai Crist: "*Ni wyddoch pan bryd y daw meistr y tŷ… byddwch yn wyliadwrus gan hynny…"* Gwaith yr Eglwys yw bod yn ffyddlon bob amser. Yn ôl Mathew 24:14, addewid Crist yw hyn: "*fe gyhoeddir yr Efengyl hon am y Deyrnas drwy'r byd i gyd fel tystiolaeth i'r holl genhedloedd, ac yna y daw'r diwedd."* Ni all Cristnogion cyffredin wneud rhyw lawer ynglwn â daeargrynfeydd, ar wahân i godi adeiladau diogel a helpu rhai sy'n dioddef yn sgil daeargrynfeydd, ond gall pawb ohonom rannu "Newyddion Da o lawenydd mawr."

"*Dysgwch wers gan y ffigysbren*," meddai. Fe ddyweda'r dail fod yna ffrwyth ar y goeden. Mae'r holl dymhorau, hyd yn oed y gaeaf, â rhan yn nyfodiad y cynhaeaf. Gwyddoch am y tymhorau, felly byddwch yn barod ar gyfer pob un ohonynt, gan baratoi at y cynhaeaf. Byddwch yn barod. Peth trist yw bod pobl yn gwastraffu amser ar '*Pa bryd?*' yn lle ar '*Byddwch yn barod'*.

Datgelodd Iesu'r ffaith mai ffug llwyr oedd crefydd y Deml a'r bobl fawr, er ei holl ysblander. Y gair a ddefnyddir yn yr iaith Roeg wreiddiol

y Testament Newydd yw *hupocrites*, hynny yw, ffug-dystion neu ragrithwyr. Cyhoeddodd Iesu fod eu cyfundrefn grefyddol wedi ei gwrthod gan Dduw, er nad ydyw Duw yn ymwrthod â'i bobl. Nid bwystfilod mohonynt ond dynion ar gyfeiliorn ac mewn angen am edifeirwch. Eu camgymeriad mawr, fel eiddo llawer o bobl grefyddol cyn hynny ac wedyn, oedd anghofio mai rhai yn dibynnu ar ras Duw oeddent, sef ei gariad at y rhai nad ydynt yn deilwng ohono, ac mai gweision y gras hwnnw oeddent a stiwardiaid gwirionedd Duw. Credasant fod y cyfan yn perthyn iddynt hwy, a neb arall – *'ein Teml, ein Deddf, ein Moses, ein proffwydi (yn dderbyniol ar ôl eu lladd) – ein hadeiladau, ein traddodiadau, ein math ni o addoli, ein ffordd o wneud pethau, ein crefydd, ein Duw ni'*!

Un o'r pethau y rhyfeddodd Iesu yn ei gylch yn ystod ei weinidogaeth oedd bod publicanod a phechaduriaid yn fwy parod i ddod i mewn i Deyrnas Dduw na phlant y Deyrnas. Oni ddylem weddïo nad felly y mae yn ein plith ni. Saif barn y Ffigysbren o hyd yma. Un peth yw chwifio'r dail; peth arall yw bod y dail hynny yn dweud y gwir wrth gyhoeddi fod gan y goeden ffrwyth - y ffrwyth sydd wrth fodd Duw ac yn rhoi ymborth i'w blant. Mor hawdd colli golwg ar Dduw mewn cyfundrefnau dynol, gwaeth pa mor arbennig ydynt. Ond y mae Duw ar gael bob amser trwy'r corff drylliedig ar ei Groes; Calfaria yw cartref newydd y *Shecina*. I'r Cristion, nid oes modd osgoi Calfaria ar lwybr bywyd, na galwad Crist i ni gario ein croesau a marw ein hunain fel unigolion ac eglwysi. *"A minnau, os caf fy nyrchafu oddi ar y ddaear, fe dynnaf bawb ataf fy hun,"* medd Crist.[8] Pawb, sylwch, nid rhai! Rhaid i'r hedyn farw er mwyn i'r cynhaeaf ddod. Gwir oedd hynny ar Galfaria ac y mae yr un mor wir i'w Eglwys ym mhob cenhedlaeth. Gair olaf Iesu wrth y Deuddeg ar Fynydd yr Olewydd oedd: "*A'r hyn yr wyf yn ei ddweud wrthych chwi, yr wyf yn ei ddweud wrth bawb: byddwch yn wyliadwrus."* Dyn y Groes sydd i ddod, ac sydd yn dod, nid fel plismon neu gasglwr dyledion neu drefnydd angladdau, ond fel priodfab yn gwahodd pawb i'w wledd. Newyddion da sydd yma.

**Gweddi:**

*Dragwyddol Dduw,*
*yn dy gariad addfwyn tuag at yr hil ddynol*
*anfonaist dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist*
*i gymryd ein cnawd a dioddef angau ar y groes.*

*Caniatâ i ni ddilyn esiampl ei ostyngeiddrwydd mawr*
*a chyfranogi yng ngogoniant ei atgyfodiad;*
*drwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.*